Tylwyth Teg, Pokéhenebion a difyrion digidol eraill Cadw

Erin Lloyd Jones: Rheolwr Dehongli Treftadaeth, Cadw, Llywodraeth Cymru



Wrth i'r oes ddigidol barhau i ddatblygu, mae'r ffordd yr ymgysylltwn â threftadaeth yn esblygu. Ochr yn ochr â dulliau traddodiadol, megis wyneb yn wyneb, tywyslyfrau a phaneli, mae technoleg ddigidol yn arf pwysig ar gyfer dysgu ac ymgysylltu a rhyngweithio ag ymwelwyr.

Lansiodd Cadw, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru, ei borth aelodaeth ar-lein yn 2017 ac ailddatblygwyd app Cadw yn 2016 i gyflwyno gemau, ailgreadau a phrofiadau realiti estynedig i rai o atyniadau treftadaeth epig Cymru. Mae digwyddiadau a gwaith addysgol ar gyd-brosiectau yn parhau i gyflawni ymchwil drwy gyfryngau newydd ac i ysbrydoli cynulleidfaoedd newydd.

Bydd Erin yn sôn am brosiectau digidol diweddar Cadw ar hyd a lled Cymru a'r uchelgeisiau ar gyfer treftadaeth ddigidol Cadw yn y dyfodol.